Gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

O 1 Rhagfyr 2010, bydd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer **STAFF** yn cael eu cynnal yn ganolog gan yr Adran Adnoddau Dynol.

Os bydd angen gwiriad DBS, bydd yr Adran Adnoddau Dynol yn sicrhau bod yr hysbyseb yn datgan bod y swydd yn amodol ar wiriad DBS. Ar ôl i'r cynnig gael ei wneud yn amodol ar wiriad DBS boddhaol, bydd Adnoddau Dynol yn cychwyn y proses o wirio. Ar ôl ichi weld bod angen gwiriad DBS ar gyfer swydd, a wnewch chi sicrhau eich bod yn ticio "A oes angen DBS ar gyfer y swydd hon?" ar y ffurflen gais i Hysbysebu Swydd Wag.

Rhan 1 – Natur y swydd.

Dylai gwiriad DBS gael ei roi ar waith gan y Pennaeth Adran trwy ymgynghori â'r swyddog gwirio dynodedig perthnasol – Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol – a bydd angen gwirio os bydd *unrhyw un* o'r meini prawf isod yn berthnasol:

I. Mae prif ddyletswyddau'r swydd neu gwrs astudio (israddedig neu uwchraddedig), neu ran sylweddol ohonynt, yn mynnu cyswllt uniongyrchol â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed unwaith y mis neu'n amlach na hynny, ar 3 achlysur neu fwy dros gyfnod o 30 diwrnod neu dros nos, h.y. rhwng 2-6 a.m.

II. Mae prif ddyletswyddau'r swydd, neu ran sylweddol ohonynt, yn cynnwys trefnu a gweinyddu rhaglenni neu weithgareddau gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed hyd yn oed os na bydd deiliad y swydd fel arfer yn dod i gysylltiad uniongyrchol â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed.

III. Wrth baratoi hysbyseb ar gyfer swydd wag, bydd angen ystyried a oes angen gwiriad DBS trwy ddarllen y diffiniad isod o oedolion neu blentyn sy'n agored i niwed. Dylai swyddi newydd gael eu hadolygu wrth baratoi'r swydd-ddisgrifiad.

Rhan 2 – Diffinio cyswllt.

Diffinio oedolion a phlentyn sy'n agored i niwed.

- Diffinnir 'plentyn' fel rhywun o dan 18 oed. At ddibenion y polisi hwn, mae'r un ystyr yn perthyn i'r term 'person ifanc'.

- Diffinnir oedolyn sy'n agored i niwed fel person 18 oed neu'n hŷn sydd:

    - yn byw mewn llety preswyl, megis cartref gofal neu ysgol arbennig breswyl;
    - yn byw mewn tai gwarchod;
    - yn derbyn gofal cartref yn eu cartref eu hunain;
    - yn derbyn unrhyw fath o ofal iechyd;
    - yn cael ei gadw dan warchodaeth gyfreithiol (mewn carchar, canolfan remand, sefydliad troseddwyr ifanc, canolfan hyfforddi diogel neu ganolfan ymbresenoli, neu dan rym y Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999);
    - dan oruchwyliaeth y gwasanaethau prawf;
    - yn derbyn gwasanaeth lles penodol, sef darpariaeth cefnogaeth, cymorth neu gyngor gan unrhyw berson, er mwyn datblygu gallu unigolyn i fyw'n annibynnol mewn llety neu eu helpu i wneud hynny;
    - yn derbyn gwasanaeth neu'n cymryd rhan mewn gweithgaredd ar gyfer pobl ag anghenion penodol oherwydd eu hoed neu oherwydd bod ganddynt ryw fath o anabledd;

- yn fam feichiog neu'n fam sy'n magu ac sy'n byw mewn gofal preswyl;
- yn derbyn taliadau uniongyrchol gan awdurdod lleol neu ymddiriedolaeth iechyd a gofal cymdeithasol;
  neu
- angen cymorth i ymdrin â'i faterion ei hun.

Gall y gwiriad DBS gymryd rhwng 3 a 6 wythnos i ddod yn ôl o Swyddfa'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn Lerpwl. Ar ôl inni dderbyn cadarnhad boddhaol, bydd yr Adran AD yn hysbysu'r Pennaeth Adran er mwyn gallu cytuno ar ddyddiad cychwyn ar gyfer y gweithiwr newydd.